Theatr Genedlaethol Cymru



Yn deillio o ysgrifau / Taken from the writings of

RACHEL CORRIE

Golygwyd gan / Edited by

ALAN RICKMAN + KATHARINE VINER

Trosiad gan / Translated by

MENNA ELFYN

Gyda chefnogaeth gan
With support from
galeri

AR DDIWRNOD CYNTA'R GWANWYN
BYDD Y DDAEAR YN DEFFRO O'I CHWSG
EGIN YN DEFFRO YN LLYGAD AGORED
A PHAN EDRYCHI DI I FYNY
BYDD Y NEFOEDD YM MLODAU EI DYDDIAU
GYDA PHLU O GYMYLAU YSGAFN—
PEIDIWCH GWYLIO'R BYD DRWY BAEN FFENEST
BLASWCH WLITH Y GLASWELLTYN
ATEBWCH GÂN YR ADAR
ARHOSWCH DRWY'R DYDD AM DES Y MACHLUD
CYSGWCH Y TU ALLAN
ACHOS FORY – FE FYDD HI'N HAF.

RACHEL CORRIE

(CYFIEITHIAD GAN MENNA ELFYN)

Rachel Corrie (1979 – 2003)

MAWRTH 2003. LLADDWYD RACHEL CORRIE – YMGYRCHYDD IFANC O AMERICA – GAN DARW DUR BYDDIN ISRAEL WRTH GEISIO AMDDIFFYN CARTREF PALESTINAIDD RHAG EI DDYMCHWEL.

Yn deillio o ddyddiaduron Rachel a'i e-byst adre at ei rhieni, dyma ddrama dirdynnol a hynod bersonol sy'n dilyn ei siwrnai o fywyd swbwrbaidd i ganol gwrthdaro Israel-Palestina. Wrth ddisgrifio'r creulondeb a'r dyngarwch mae hi'n ei weld yn Gaza, mae geiriau Rachel mor berthnasol nawr ag erioed ac yn galw arnom ni gyd i weithredu dros heddwch.

Cyd-olygwyd y ddrama wreiddiol Saesneg gan **Katharine Viner** a'r diweddar **Alan Rickman**, ac fe'i berfformiwyd am y tro cyntaf yn 2005 yn Theatr y Royal Court yn Llundain. Mae'r ddrama bellach wedi'i pherfformio mewn ugain o wledydd, gan gynnwys Israel, ac wedi'i chyfieithu i ddeuddeg iaith.

Gyda chefnogaeth gan Galeri.

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn cynnig tocynnau rhad i'r dangosiadau yma, er mwyn i gynulleidfaoedd allu gyfrannu at elusennau sy'n cefnogi'r rheiny sydd wedi'u heffeithio gan y rhyfel yn Gaza, os ydyn nhw'n dymuno.

WWW.RACHELCORRIEFOUNDATION.ORG

MARCH 2003. RACHEL CORRIE – A YOUNG AMERICAN ACTIVIST – IS KILLED BY AN ISRAELI ARMY BULLDOZER WHILE PROTECTING A PALESTINIAN HOME FROM DEMOLITION.

Taken from Rachel's own diaries and e-mails home to her parents, this moving and deeply personal play follows her journey from teenage suburban life into the middle of the Israeli-Palestinian conflict. Recounting the cruelty and humanity she witnessed during her time in Gaza, Rachel's words are as relevant today as ever and call on us all to act for peace.

The original English play was jointly edited by **Katharine Viner** and the late **Alan Rickman**, and it was first performed in 2005 at the Royal Court Theatre in London. To date, the play has been performed in 20 countries, including Israel, and has been translated into 12 languages.

With support from Galeri.

Theatr Genedlaethol Cymru is offering low ticket prices for these performances, so that audiences are able to donate to charities supporting those affected by the conflict in Gaza if they wish.

WWW.RACHELCORRIEFOUNDATION.ORG

Hannah Daniel

NODYN GAN Y CYFARWYDDWR

Mae ***Fy Enw i yw Rachel Corrie*** yn ddarn bwerus o theatr sy'n rhoi llais i feddyliau, breuddwydion, a brwydrau merch ifanc o America a gafodd ei lladd gan fyddin Israel yn 2003. Roedd Rachel Corrie yn amddiffyn tŷ Dr Samir Nasrallah yn Gaza wrth i darw dur y fyddin fygwth chwalu ei dŷ.

Yn seiliedig ar gofnodion dyddiadur go iawn ac e-byst Rachel, mae'r ddrama yn ein gwahodd i brofi ei hymrwymiad angerddol i gyfiawnder a'i thosturi dwfn tuag at bobl Gaza.

Mae taith Rachel i actifiaeth yn dechrau gydag awydd i ddeall y byd y tu hwnt i'w phrofiadau ei hun. Wrth iddi deithio i Lain Gaza i weithio fel gwirfoddolwr, mae'n wynebu realiti llwm gwrthdaro, gormes, a chost ddynol penderfyniadau gwleidyddol. Trwy ei llygaid hi, gwelwn gymhlethdodau bywyd mewn rhanbarth sy'n cael ei ddinistrio gan ryfel a'r gobaith ffyrnig a all ddod i'r amlwg hyd yn oed yn yr amgylchiadau tywyllaf.

NOTE FROM THE DIRECTOR

Fy Enw i yw Rachel Corrie is a powerful piece of theatre that gives voice to the thoughts, dreams and struggles of a young American woman who was killed by the Israeli army in 2003. Rachel Corrie was defending Dr Samir Nasrallah's house in Gaza as a bulldozer threatened to demolish his house.

Based on Rachel's diary entries and emails, the play invites us to experience her passionate commitment to justice and her deep compassion for the people of Gaza.

Rachel's journey into activism begins with a desire to understand the world beyond her own experiences. As she travels to the Gaza Strip to work as a volunteer, she faces the stark reality of conflict, oppression, and the human cost of political decisions. Through her eyes, we see the complexities of life in a region ravaged by war and the fierce hope that can emerge even in the darkest of circumstances.

Mae geiriau Rachel, yng nghyfieithiad arbennig Menna Elfyn, wedi ein hysbrydoli bob dydd yn ystod ymarferion. Sut mae ffindio ein llwybr? Beth yw ein heffaith ar eraill? Beth yw ein cyfrifoldeb i weddill dynoliaeth? Ein gobaith ydi y bydd y ddrama yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pellach o'r sefyllfa dyngarol erchyll ym Mhalesteina.

Dros ddau ddegawd ers marwolaeth Rachel mae'r negeseuon mor berthnasol ag erioed, ac yn anffodus mae'n codi cwestiynau dwys, gan gynnwys a oes unrhyw beth wedi newid wedi newid er gwell yn y rhanbarth yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf?

Nid yn unig mae'r cyflwyniad yma yn ceisio anrhydeddu bywyd ac ysbryd Rachel ond hefyd mae'n ein herio i fyfyrio ar ein rolau ein hunain yn y gymuned fyd-eang. Mae'n codi cwestiynau tyngedfennol ynglŷn â'n cyfrifoldebau tuag at eraill, pŵer lleisiau unigol yng ngwyneb anghyfiawnder, a phwysigrwydd empathi mewn byd sy'n gynyddol hollti.

Rydym yn eich gwahodd i ymgolli yn stori Rachel a phobl Palesteina y mae hi'n byw, bwyta a gweithio gyda nhw. Wrth i chi brofi ei geiriau ym mherfformiad trawiadol Hannah Daniel, rydym yn gobeithio y byddwch yn cysylltu â'i galwad

Rachel's words, in Menna Elfyn's excellent translation, have inspired us every day during rehearsals. How do we find our path? What is the impact of our actions on others? What is our responsibility to the rest of humanity? Our hope is that the play will raise further awareness and understanding of the horrific humanitarian situation in Palestine.

Over two decades since Rachel's death the messages are as relevant as ever, and unfortunately it raises profound questions about whether anything has changed positively in the region during the last twenty years?

Not only does this presentation seek to honour Rachel's life and spirit but it also challenges us to reflect on our own roles in the global community. It raises critical questions about our responsibilities towards others, the power of individual voices in the face of injustice, and the importance of empathy in a world that is increasingly divided.

We invite you to immerse yourself in Rachel's story and the Palestinian people she lives, eats and works with. As you experience her words in Hannah Daniel's moving performance, we hope you will connect with her passionate call for understanding

angerddol am ddealltwriaeth a thosturi, a chael eich ysbrydoli i fyfyrio ar sut y gallwn i gyd gyfrannu at fyd mwy cyfiawn a theg.

Yn ystod taith *Fy Enw i yw Rachel Corrie*, byddwn yn lansio prosiect newydd gyda Theatr ASHTAR yn Ramallah sy'n dod â phobl ifanc Cymru a Phalesteina at ei gilydd i gyfnewid diwylliant, meithrin dealltwriaeth, ac i gyd-greu wrth rannu syniadau a straeon. Trwy weithdai, perfformiadau digidol, ac ymgysylltu â'r gymuned, bydd y prosiect yn archwilio themâu dadleoliad, heddwch a grym mynegiant artistig a chymuned.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r tîm i gyd sydd wedi dod â gymaint o ofal, angerdd a thalent i greu y dangosiadau yma. Hoffwn ddiolch i Hannah Daniel, Menna Elfyn, Elanor Higgins, Kareem Samara a Maariyah Sharjil am eu gwaith manwl ac arbennig, i gyd mewn amser mor fyr!

Mae Theatr Gen wedi ymrwymo i fynd i afael â materion cyfoes a sgyrsiau byd-eang drwy gyfrwng byw theatr, sy'n creu a chynnal fforwm gyda ein cynulleidfaoedd. Diolch am ymuno efo ni ar gyfer y cyflwyniad hwn am fywyd ac etifeddiaeth Rachel. Mae eich presenoldeb yn rhan hanfodol o gadw ei hysbryd yn fyw, i ddangos

and compassion, and be inspired to reflect on how we can all contribute to a more just and fair world.

During the *Fy Enw i yw Rachel Corrie* tour, we will launch a new project with ASHTAR Theatre in Ramallah which brings young people from Wales and Palestine together to exchange culture, foster understanding, and to co-create while sharing ideas and stories. Through workshops, digital performances, and community engagement, the project will explore themes of displacement, peace and the power of artistic expression and community.

I am very grateful to all the team who have brought so much care, passion and talent to create these showings. I would like to thank Hannah Daniel, Menna Elfyn, Elanor Higgins, Kareem Samara and Maariyah Sharjil for their detailed and exceptional work, all in such a short time!

Theatr Gen is committed to tackling contemporary issues and global conversations through live theatre, which creates and sustains a forum with our audiences. Thank you for joining us for this presentation about Rachel's life and legacy. Your presence is an essential part of keeping her spirit alive, to show solidarity with

undod gyda'r diniwed sy'n dioddef mewn amgylchiadau hunllefus ym Mhalesteina ac i ofyn sut mae gweithio am fyd gwell? Byd y basa Rachel yn falch ohoni.

the innocent people who suffer in nightmarish circumstances in Palestine and to ask how can we all work towards a better world? A world that Rachel would be proud of.

Steffan Donnelly
Cyfarwyddwr / Director ***Fy Enw i yw Rachel Corrie***
Cyfarwyddwr Artistig Theatr Genedlaethol Cymru
Artistic Director of Theatr Genedlaethol Cymru

Ymarferion / Rehearsals

CAST

Hannah Daniel Rachel Corrie

Simon Watts Troslais | Voiceover

TÎM CREADIGOL A CHYNHYRCHU
CREATIVE AND PRODUCTION TEAM

Yn deillio o ysgrifau | Taken from the writings of **Rachel Corrie**
Wedi'i olygu gan | Edited by **Alan Rickman** a **Katharine Viner**
Trosiad gan | Translation by **Menna Elfyn**

Steffan Donnelly
Cyfarwyddwr
Director

Maariyah Sharjil
Cynllunydd Set a Gwisgoedd
Set and Costume Designer

Kareem Samara
Cynllunydd Sain
Sound Designer

Elanor Higgins
Cynllunydd Goleuo
Lighting Designer

Fflur Thomas
Cynhyrchydd
Producer

Gareth Wyn Roberts
Pennaeth Cynhyrchu
Head of Production

Jihan Rezeqallah
Rheolwr Llwyfan
Stage Manager

Cerys John
Dirprwy Reolwr Llwyfan
Deputy Stage Manager

Guto Evans
Technegydd Sain
Sound Engineer

Laurie Elen Thomas
Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol
Assistant Stage Manager

Niamh Moulton
Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol
Assistant Stage Manager

Jamie Rollinson
Technegydd Sain
(Perfformiad yn Yr Egin)
Sound Engineer
(Performance at Yr Egin)

Hannah Daniel

STAFF THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

TÎM RHEOLI | MANAGEMENT TEAM

Steffan Donnelly
Cyfarwyddwr Artistig a Chyd-Brif Weithredwr | Artistic Director and Joint Chief Executive

Angharad Jones Leefe
Cyfarwyddwr Gweithredol a Chyd-Brif Weithredwr | Executive Director and Joint Chief Executive

Rhian Davies
Cyfarwyddwr Cynhyrchu
Director of Producing

CYFRANOGI | PARTICIPATION

Sian Elin James
Cydlynydd Cyfranogi
Participation Co-ordinator

CYLLID A GWEINYDDIAETH FINANCE AND ADMINISTRATION

Nerys Evans
Swyddog Gweithrediadau
Operations Officer

Lisa Ronan
Swyddog Cyllid | Finance Officer

CYNHYRCHU | PRODUCTION

Gareth Wyn Roberts
Pennaeth Cynhyrchu
Head of Production

Caryl McQuilling
Rheolwr Cynhyrchu Cwmni
Company Production Manager

CYNHYRCHWYR | PRODUCERS

Fflur Thomas, **Gavin Richards**
Cynhyrchwyr | Producers

Steffan Wilson-Jones
Cynhyrchydd Cynorthwyol
Assistant Producer

DATBLYGU CREADIGOL CREATIVE DEVELOPMENT

Rhian Blythe
Cyfarwyddwr Cyswllt
Associate Director

MARCHNATA A CHYFATHREBU MARKETING AND COMMUNICATIONS

Ceri Williams
Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu | Marketing and Communications Manager

BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR BOARD OF TRUSTEES

Yr Athro Jerry Hunter Cadeirydd
Dr Nia Edwards-Behi
Jacob Dafydd Ellis
Siôn Fôn
Elin Parisa Fouladi
Gwyn Jones
Fiona Phillips
Catherine Rees
Rhys Miles Thomas
Gwyn Williams
Meilir Rhys Williams

Hannah Daniel

Maariyah Sharjil + Hannah Daniel

BYWGRAFFIADAU
BIOGRAPHIES

Hannah Daniel
Rachel Corrie

Credydau theatr yn cynnwys / Theatre credits include: *For All I Care* (National Theatre Wales/ Edinburgh Festival); *Love at First Light* (Shock and Awe Productions); *Launch Agent 160* (Agent 160); *The Linzee Way* (Daughters on the Stage)

Credydau teledu yn cynnwys / Television credits include: *Creisis* (S4C); *Tree on a Hill* (S4C/BBC Wales); *The Light in the Hall* (S4C/Channel 4); *Keeping Faith* (BBC Wales/S4C); *Eastenders* (BBC); *Hinterland* (Fiction Factory for BBC and S4C); *Gwaith Cartref* (Fiction Factory).

Mae Hannah hefyd wedi gweithio fel awdur yn ddiweddar gyda Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr Clwyd: *Rwan Nawr* (2023) a *Ha/Ha* (2024). Mae ei drama deledu gyntaf *Mudtown* (wedi'i gyd-ysgrifennu gyda Georgia Lee) yn cael ei chynhyrchu ar gyfer S4C a UKTV.

Hannah also recently worked as a writer with Theatr Genedlaethol Cymru and Theatr Clwyd: *Rwan Nawr* (2023) and *Ha/Ha* (2024). Her debut television drama *Mudtown* (co-written with Georgia Lee) is currently in production for S4C & UKTV.



Steffan Donnelly
Cyfarwyddwr / Director

Steffan Donnelly yw Cyfarwyddwr Artistig a Chyd-Brif Weithredwr Theatr Genedlaethol Cymru. Ar ôl graddio o'r Guildhall School of Music and Drama yn Llundain, sefydlodd Gwmni Theatr Invertigo sydd wedi teithio'r Deyrnas Gyfunol ac yn ryngwladol gyda sawl cynhyrchiad megis *Saer Doliau*, *Y Tŵr*, *My Body Welsh*, *My People*, *Derwen*, a Gŵyl Rithiol Pererindod. Mae ei waith diweddar fel cyfarwyddwr yn cynnwys *Ha/Ha*, *Parti Priodas*, *Rhinoseros*, *Kiki Cymraeg* a *Gwlad yr Asyn* (Theatr Genedlaethol Cymru) a ffilmiau byrion *Monologau'r Maes* gyda Siân Phillips a John Ogwen (Eisteddfod Genedlaethol Cymru).

Mae ei waith fel actor yn cynnwys gweithio yn y Barbican, Theatr Clwyd, a sawl tymor yn Shakespeare's Globe. Cyhoeddwyd dwy o'i ddramâu, a sefydlodd y llyfrgell ddigidol www.dramau.cymru tra'n astudio am ei radd meistr yn King's College Llundain.

Mae Steffan yn un o sylfaenwyr Llawryddion Celfyddydol Cymru (gynt Tasglu Llawrydd Cymru, yn ymateb i effaith y pandemig ar y sector llawrydd). Cafodd ei enwi yn un o bobl mwyaf dylanwadol ym myd theatr yn rhestr The Stage 100 yn 2024.

Steffan Donnelly is the Artistic Director and Joint Chief Executive of Theatr Genedlaethol Cymru. After graduating from the Guildhall School of Music and Drama, London, he established Invertigo Theatre Company that toured the UK and internationally with several productions including *Saer Doliau*, *Y Tŵr*, *My Body Welsh*, *My People*, *Derwen*, and the Pererindod Festival. His recent work as a director includes *Ha/Ha*, *Parti*

Priodas, *Rhinoseros*, *Kiki Cymraeg* and *Gwlad yr Asyn* (Theatr Genedlaethol Cymru) and the short films *Monologau'r Maes* with Siân Phillips and John Ogwen (Eisteddfod Genedlaethol Cymru).

His work as an actor includes work at the Barbican and Theatr Clwyd, and several seasons at Shakespeare's Globe. Two of his plays have been published, and he established the digital library www.dramau.cymru whilst studying for his master's degree at King's College London.

Steffan is a founder member of Cultural Freelancers Wales (formerly Wales Freelance Taskforce, responding to the effect of the pandemic on the freelance sector). He was named as one of the most influential people in theatre in The Stage 100 list in 2024.

Menna Elfyn

Awdur y Trosiad Cymraeg
Writer of Welsh-language Adaptation

Bardd a dramodydd arobryn. Cyhoeddodd bymtheg cyfrol o farddoniaeth, a'r mwyaf diweddar *Tosturi*, Barddas (rhestr fer Llyfr y Flwyddyn). Enillodd nifer o'i chyfrolau dwyieithog gyda Bloodaxe Books wobrau megis *Murmur* (Poetry Book Society Recommended Translation). Cyfieithwyd ei gwaith i dros ugain o ieithoedd a derbyniodd Wobr Ryngwladol Anima Istranza am ei chyfraniad i farddoniaeth Ewropeaidd yn 2009.

Perfformiwyd nifer o'i libretti yng Nghymru ac yn America, megis yr opera *Gair ar Gnawd*, Opera Cenedlaethol Cymru gyda'r cyfansoddwr Pwyll ap Sion yn 2015 ac yn Efrog Newydd perfformiwyd ei

symffoni gorawl *Garden of Light* (Disney, Lincoln Centre, 1999) . Bu'n cydweithio gyda Karl Jenkins ar ganeuon ar gyfer agoriad Canolfan y Mileniwm. Ymhlith rhai o'i dramâu: *Madog* (1989), *Ar Dir y Tirion* (1991), *Y Forwyn Goch* (1992), *Melltith y Mamau* (1995). Darlledwyd wyth o'i dramâu radio hefyd ar Radio Cymru a'r mwyaf diweddar, *Under Milk Wood* ar BBC Radio 4..

Cyhoeddodd nifer o lyfrau ffeithiol megis bywgraffiad o fywyd a gwaith Eluned Phillips – *Optimist Absoliwt* (Gomer, 2016), *Cennad* (Barddas 2018), a *Cwsg* (Gomer, 2019).

Bydd cyfrol newydd o'i gwaith yn ymddangos yn Arabeg yn Ionawr 2025, a chyfrol newydd o farddoniaeth mewn cyfieithiad: *Parch* o Bloodaxe Books yn Hydref 2025.

Yn 2022, enillodd wobr Chomondeley gan Society of Authors, gwobr arbennig i fardd a wnaeth gyfraniad nodedig i farddoniaeth. Mae'n Athro Emerita ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant. Menna Elfyn yw Llywydd Wales PEN Cymru.

Award-winning poet and playwright. Menna published fifteen columes of poetry, most recently *Tosturi*, Barddas (shortlisted for Wales Book of the Year). A number of her bilingual publications with Bloodaxe Books have won awards including *Murmur* (Poetry Book Society Recommended Translation). Her work has been translated into twenty languages and she received the Anima Istranza International Award for her contribution to European poetry in 2009.

A number of her libretti have been performed in Wales and America, including the opera *Gair ar Gnawd*, Welsh National Opera with composer Pwyll ap Sion in 2015, and a performance of her

choral symphony *Garden of Light* in New York (Disney, Lincoln Centre, 1999). She collaborated with Karl Jenkins on songs for the opening of Wales Millennium Centre. Her plays include: *Madog* (1989), *Ar Dir y Tirion* (1991), *Y Forwyn Goch* (1992), *Melltith y Mamau* (1995). Eight of her radio plays have been broadcast on BBC Radio Cymru with the most recent, *Under Milk Wood* on BBC Radio 4

Menna published a number of factual books, including a biography about the life and work of Eluned Phillips – *Optimist Absoliwt* (Gomer, 2016), *Llengofiant Cennad* (Barddas 2018), a Cwsg (Gomer, 2019).

A new volume of work will be published in Arabic in January 2025, and a new volume of poetry: *Parch* from Bloodaxe Books in October 2025.

In 2022, she won the Chomondeley Award from the Society of Authors, awarded to poets who make a notable contribution to poetry. Menna is a Professor Emerita at the University of Wales Trinity St David.

Maariyah Sharjil
Cynllunydd Set a Gwisgoedd
Set and Costume Designer

Mae Maariyah Sharjil yn gynllunydd. Graddiodd Maariyah gyda gradd dosbarth cyntaf o gwrs BA Cynllunio ar gyfer Perfformiad yn yr Ysgol Canolog Brenhinol Llafaru a Drama (2021). Cyn hyfforddi mewn cynllunio, gweithiodd Maariyah yn Sands Films fel lluniwr gwisgoedd.

Mae ei chynyrchiadau diweddaraf yn cynnwys: Cynllunydd ar gyfer *Duck* (Arcola); Ymchwilydd

gwisgoedd ar gyfer *Life of Pi* (American Repertory theatre); Cynorthwyydd gwisgoedd ar gyfer *The Empress* (RSC); Cynllunydd gwisgoedd cynorthwyol ar gyfer *The Father and the Assassin* (National Theatre) a Cynllunydd Gwisgoedd ar gyfer *The Key Workers' Cycle* (Almeida).

Maariyah Sharjil is a designer. She is a first-class graduate from BA Design for Performance at the Royal Central School of speech and Drama (2021). Before her design training, Maariyah worked at Sands Films as a costume constructor.

Her most recent productions include; Designer for *Duck* (Arcola); Costume researcher for *Life of Pi* (American Repertory theatre); Design assistant for *The Empress* (RSC); Assistant Costume Designer for *The Father and the Assassin* (National Theatre) and Costume Designer for *The Key Workers' Cycle* (Almeida).

Kareem Samara

Cyfansoddwr a Chynllunydd Sain
Composer and Sound Designer

Mae Kareem Samara yn gerddor byrfyfyr a chyfansoddwr o Lundain. Mae wedi gweithio'n helaeth ym myd theatr fel cyfansoddwr ac wedi teithio ledled y UDA ac Ewrop gyda nifer o brosiectau cerddorol. Mae'n cyfuno taro Oud ac Arabig, gyda dolenwyr a samplwyr i greu deialog newydd rhyngddo fe a thechnoleg. Ei fwriad yw anrhydeddu ei holl draddodiadau cerddorol, i herio siarad gwag gwleidyddol yn y diwydiant cerddorol a defnyddio'i gerddoriaeth i gefnogi'r delfryd o Balestina rhydd trwy rhyddhad cynulliadol.

Credydau theatr yn cynnwys Hakawatis (Shakespeare's Globe), *A History of Water in the Middle East* (Royal Court), *You Bury Me* (Bristol Old Vic), *The Chronicles of Majnoon Leila* (The Gate Theatre).

Kareem Samara is an improviser and composer from London. He has worked extensively in theatre as a composer and has toured across the United States and Europe with numerous musical projects. He combines the Oud and Arabic percussion, with loopers and samplers to create a new dialogue between himself and technology. The aim is to honour all his musical traditions, to challenge the empty political posturing of the music industry and use his music to advocate for a free Palestine through collective liberation.

Theatre credits include *Hakawatis* (Shakespeare's Globe), *A History of Water in the Middle East* (Royal Court), *You Bury Me* (Bristol Old Vic), *The Chronicles of Majnoon Leila* (The Gate Theatre).

Elanor Higgins
Cynllunydd Goleuo
Lighting Designer

Mae Elanor yn Ddylunydd Goleuo toreithiog wedi'i lleoli yng Nghymru, yn goleuo cynyrchiadau ar gyfer theatr, opera, dawns, sioeau cerdd a theatr i blant. Graddiodd o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru lle mae bellach yn ddarlithydd gwadd a mentor mewn Goleuadau Llwyfan a Senograffeg. Mae hi hefyd yn Gydymaith Creadigol gyda Theatr na nÓg.

Dyluniadau goleuo diweddar yn cynnwys: *Blaze of Glory*; *Madam Butterfly*; *Rhondda Rips it Up* (Welsh National Opera); *Macbeth*, *Hansel and Gretel*, *La boheme* (Mid Wales Opera); *Galwad* (National Theatre Wales/Collective Cymru/Unboxed); *Nut Cracker*; *Santa's Wish*; *Castellana*; *Live Under The Stars; Polly and Esther* (Sherman Theatre and Pleasance); *Remarkable Rhythm* (Krystal Lowe); *The Gods are all Here* (Phil Okwedy); *Brassed Off* (Aberystwyth Arts Centre); *Swyn; Pryd Mae'r Haf?; Merched Caerdydd; Nos Sadwrn o Hyd; Hollti; Y Negesydd; Pridd; Chwalfa; Sgint* (Theatr Genedlaethol Cymru); *The Fight; Arandora Star; Eye of the Storm; The Ghost of Morfa Colliery; The White Feather; Halt; We Need Bees* (Theatr na nÓg); *Revolt.She said.Revolt Again.; Huno* (The Other Room); *Stick Man Live on Stage; Tiddler and Other Terrific Tales* (Freckle Production).

Elanor is a prolific Lighting Designer based in Wales, lighting productions for theatre, opera, dance, musicals and children's theatre. She is a graduate of the Royal Welsh College of Music and Drama where she returns as a guest lecturer and mentor in Stage Lighting and Scenography. She is also a Creative Associate with Theatr na nÓg.

Recent lighting designs include: *Blaze of Glory*; *Madam Butterfly*; *Rhondda Rips it Up* (Welsh National Opera); *Macbeth*, *Hansel and Gretel*, *La boheme* (Mid Wales Opera); *Galwad* (National Theatre Wales/Collective Cymru/Unboxed); *Nut Cracker; Santa's Wish; Castellana; Live Under The Stars; Polly and Esther* (Sherman Theatre and Pleasance); *Remarkable Rhythm* (Krystal Lowe); *The Gods are all Here* (Phil Okwedy); *Brassed Off* (Aberystwyth Arts Centre); *Swyn; Pryd Mae'r Haf?; Merched Caerdydd; Nos Sadwrn o Hyd; Hollti; Y Negesydd; Pridd; Chwalfa; Sgint* (Theatr

Genedlaethol Cymru); *The Fight; Arandora Star; Eye of the Storm; The Ghost of Morfa Colliery; The White Feather; Halt; We Need Bees* (Theatr na nÓg); *Revolt.She said.Revolt Again.; Huno* (The Other Room); *Stick Man Live on Stage; Tiddler and Other Terrific Tales* (Freckle Productions).

Hannah Daniel

Ha/Ha Llun / Image Mefus Photography

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn gwmni theatr deithiol sy'n dod â gwaith cyfrwng Cymraeg i gynulleidfaoedd ledled y wlad, gan roi Cymru a'i phobl ar y map.

Ein gweledigaeth yw i greu theatr Gymraeg fel man i ddod ynghyd, i gysylltu'r adnabyddus a'r annisgwyl, Cymreictod a'r byd, i drafod yn ddwys ac i godi'r galon.

Roedd 2023 yn nodi ugain mlynedd ers sefydlu'r cwmni. Dros yr ugain mlynedd diwethaf, mae'r cwmni wedi cofleidio clasuron y theatr Gymraeg a gwaith arbrofol newydd sbon, ac wedi cyflwyno'r cyfan ar lwyfannau traddodiadol ac mewn lleoliadau annisgwyl.

Cychwynodd 2024 gyda'r newyddion bod **Angharad Jones Leefe** a **Steffan Donnelly** – ein Cyd-Brif Weithredwyr – wedi'u cynnwys yn The Stage 100 fel dau o'r bobl mwyaf dylanwadol ym myd y theatr, ac fe gyrhaeddodd y cwmni y rhestr fer Cynhyrchydd y Flwyddyn yng Ngwobrau The Stage 2024. Yn ddiweddar, mae'r cwmni wedi'i enwebu ar gyfer gwobr UK Theatre am Ragoriaeth Mewn Teithio.

Diolch am ymuno â ni!

Bren. Calon. Fi. Llun / Image Mefus Photography

Ar y Dibyn Llun / Image Kristina Banholzer

Parti Priodas Llun / Image Kristina Banholzer

Theatr Genedlaethol Cymru is a touring theatre company bringing Welsh-language work to audiences across the nation, putting Wales and its people on the map.

Our vision is to make Welsh-language theatre as a place of connection for the well-known and the unexpected, for Welshness and the world, for the big conversations and the joyful moments.

In 2023 we celebrated our 20th anniversary. Over the last two decades, the company has embraced the classics of Welsh-language theatre as well as new and experimental work, performing in traditional theatres and in unexpected locations.

2024 started with the news that **Angharad Jones Leefe** and **Steffan Donnelly** – our Joint Chief Executives – have been included in The Stage 100 as two of the most influential people in theatre. The company also reached the shortlist at The Stage Awards 2024 as Producer of the Year. Recently, the company has been nominated for a UK Theatre Award for Excellence in Touring.

Thanks for joining us!

Gweithdy Ysgol Llun / Image Mefus Photography

Rhinoseros Llun / Image Mark Douet

ASHTAR THEATRE X THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

Ochr yn ochr â chyflwyno dangosiadau o *Fy Enw i yw Rachel Corrie*, mae Theatr Genedlaethol Cymru yn gweithio gyda chwmni theatr ASHTAR i feithrin cysylltiadau creadigol rhwng pobl ifanc o Gymru a Phalesteina.

Yn defnyddio grym barddoniaeth fel iaith fyd-eang, mae cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn cyfres o weithdai ar-lein dan arweiniad artistiaid o Balestina a Chymru, gyda'r bwriad o ddenu sylw i leisiau ieuenctid a meithrin dealltwriaeth rhyng-ddiwylliannol.

Gyda chefnogaeth hefyd gan **Llenyddiaeth Cymru**, penllanw'r prosiect fydd creu cerdd tair-ieithog mewn Arabeg, Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â ffilm fer sy'n cynnwys cyfranogwyr ifanc o Gymru a Phalesteina.

Mae cwmni **ASHTAR** wedi bod yn gweithio ym Mhalesteina ers 1991, gan ddefnyddio theatr i greu newid cymdeithasol ac yn cynnig rhaglenni hyfforddiant theatr i bobl lleol a rhyngwladol. Ym mis Tachwedd 2023, lansiwyd

Alongside the presentations of ***Fy Enw i yw Rachel Corrie***, Theatr Genedlaethol Cymru is working with the team at **ASHTAR** Theatre to develop creative connections between young people in Wales and Palestine.

Using the power of poetry as a universal language, participants are taking part in a series of online workshops led by artists from Palestine and Wales, aiming to amplify young voices and foster cross-cultural understanding.

With support from **Literature Wales**, the project will culminate in the creation of a trilingual poem in Arabic, Welsh and English, as well as a short film featuring young participants from Wales and Palestine.

ASHTAR Theatre has been working in Palestine since 1991, using theatre to create social change and offering theatre training programmes. In November 2023, they launched an urgent request to theatre makers around the world to publicly read or perform

cais brys gan Ashtar yn erfyn ar wneuthurwyr theatr ledled y byd i ddarllen neu berfformio *The Gaza Monologues* – tystiolaethau a ysgrifennwyd gan ieuenctid Ashtar yn 2010 a 2014 -yn gyhoeddus.

Cynhaliwyd darlleniadau byw o'r monologau gan gannoedd o grwpiau proffesiynol ac amatur ar draws 60 gwlad, yn ogystal â ffrydio'n fyw a rhyddhau darlleniadau wedi'u recordio ymlaen llaw. Er mwyn ymgysylltu ymhellach â'r gymuned greadigol fyd-eang, lansiodd ASHTAR Theatre *Letters to Gaza* a chael ymateb byd-eang, gyda mwy na 70 o gyflwyniadau o lythyrau, cerddi, caneuon a mwy. Mae'r cwmni hefyd wedi bod yn codi arian i gynnal ymyriad lleddfu trawma seico-gymdeithasol i blant Palesteina, sydd hyd yma wedi cyrraedd 650 o unigolion gan gynnwys rhai o awduron *Gaza Monologues* sy'n cael eu cefnogi o bell.

Mae'r perfformiadau a'r prosiect yma yn rhan o ddyhead Theatr Genedlaethol Cymru i greu gwaith Cymraeg sy'n mynd i'r afael â materion cyfoes a sgyrsiau byd-eang. Bwriad y cwmni yw hwyluso a chreu gofod am ragor o drafodaethau cyfrwng Cymraeg ynglŷn a'r argyfwng dyngarol presennol sy'n wynebu mwy na ddwy filiwn o bobl yn Gaza (eu hanner yn blant).

The Gaza Monologues, testimonies written by Ashtar youth in 2010 and 2014. Hundreds of professional and non-professional groups across 60 countries performed live readings of the Monologues, as well as live-streaming and releasing pre-recorded readings. To further engage the global creative community, ASHTAR Theatre then launched *Letters to Gaza* and received a world-wide response with more than 70 submissions of letters, poems, songs and more. The company have also been fundraising to enable a psycho-social trauma relief intervention for Palestinian children, which has so far reached 650 individuals including some of the *Gaza Monologues* authors who are being supported remotely.

The performances and project are part of Theatr Genedlaethol Cymru's mission to create Welsh-language work that tackles current affairs and global conversations. The company's intention is to facilitate and create a space for further Welsh-language discussions about the current humanitarian crisis facing two million people in Gaza (half of them children).

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rhif cofrestru cwmni / Company registration number: 4784488
Dylunio Graffeg / Graphic Design: Kelly King Lluniau ymarferion / Rehearsal images: Mefus Photography